## Cefndir

Sefydlwyd cwmni Theatr Spectacle Cyf ym 1979 yng nghanol ardal y meysydd glo Cymreig, ac fe arloesodd y cwmni ym mynediad at theatr byw ac ysgrifennu newydd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Drwy weithio mewn partneriaeth, rydym yn darparu gwasanaeth theatr dwyieithog arloesol (gweithdai, cynhyrchiadau a mentora), yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

## Gweledigaeth

Ein gweledigaeth fel cwmni yw creu theatr gyfranogol sydd yn gyfan gwbl gynhwysol ac ystyrlon, sydd wedi ei integreiddio yn ein bywydau ac sy'n cyfrannu at lesiant ein cymuned.

Mae'r weledigaeth hon yn ganolog i'n rhaglen broffesiynol o gynhyrchiadau theatr cyfranogol.

## Nodau

- Galluogi pobl ddifreintiedig i fynd i'r afael â materion sy'n cael effaith arnyn nhw a'u cymunedau.
- Ymgysylltu â phobl fregus ac anodd eu cyrraedd a'u hysgogi drwy weithgareddau hamdden celfyddydol hygyrch.
- Grymuso unigolion o fewn grwpiau difreintiedig i gael llais, i gael eu clywed, ac i gael hyder i wrando ar eraill ac ymgysylltu'n gadarnhaol o fewn eu cymunedau; cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch, hyder a datblygiad personol a chymdeithasol.
- Creu partneriaeth rhwng sefydliadau sy'n brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol er mwyn cynyddu'r buddion i'r cyfranogwyr.